CYNGOR TREF Y
RHYL
TOWN COUNCIL

**Town Mayor / Maer y Dref: Councillor / Cynghorydd Mr Alexander Walker**

**Town Clerk / Clerc y Dref: Mrs Helen J Mead**

**Date / Dyddiad: November/Tachwedd 2025**

## Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi camu i'r adwy i gadw Canolfan Groeso'r dref ar agor yn ystod y misoedd nesaf.

Y bwriad oedd cau'r gwasanaeth poblogaidd yn ystod y gaeaf gan fod Twristiaeth Gogledd Cymru'n wynebu pwysau aruthrol o ran ei gyllideb. Mae'r Cyngor Tref wedi camu i'r bwlch a bydd yn cyfrannu at y diffyg yn y cyllid fel y gall y gwasanaeth barhau ar agor ac wedi'i staffio hyd at fis Mawrth.

Dyma'r drydedd flwyddyn mae'r Cyngor wedi helpu'r Ganolfan Groeso. Dywedodd Clerc y Dref, Helen Mead, fod y ganolfan yn rhan werthfawr o fywyd y Rhyl sy'n darparu llawer mwy nag y mae enw'n ei awgrymu.

"Nid yw twristiaeth wedi'i gyfyngu i fisoedd yr haf mwyach, a gyda dau westy cadwyn adnabyddus ar lan y môr, mae gennym ni ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn.

"Wedi dweud hynny, nid yw'r Ganolfan Groeso ar gyfer ymwelwyr yn unig. Mae'n cynnig cymorth i drigolion y dref hefyd – drwy hyrwyddo digwyddiadau, atyniadau lleol, rhoi cyhoeddusrwydd i weithgareddau yn ystod misoedd y gaeaf a rhoi cyngor a chefnogaeth i drigolion ar ystod o faterion, yn cynnwys cludiant cyhoeddus a chyfleusterau lleol.

"Rydym ni'n gwybod fod sefydliadau'n wynebu pwysau ar eu cyllideb ac nad yw popeth yn gynaliadwy. Ond mae meysydd y gallwn ni eu cefnogi. Mae'r Cyngor Tref yn adolygu'r gwasanaethau mae'n eu cynnig i drigolion a thwristiaid yn barhaus. Mae'r gymuned a thwristiaeth yn ddau faes twf a datblygiad y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y misoedd nesaf, felly mae'n gwneud synnwyr i ni gefnogi'r Ganolfan Groeso nawr," ychwanegodd Helen.

Gall y tîm yn y Ganolfan Groeso archebu llety, rhoi gwybodaeth am fannau o ddiddordeb a lleoliadau i fwyta, a chynnig cyngor ynghylch cynllunio amserlen a theithiau. Mae'r ganolfan hefyd yn rhoi gwybodaeth am ac yn gwerthu tocynnau i ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol a thocynnau i deithio ar fysiau National Express. Mae'r siop ar y safle yn cynnwys crefftau, mapiau, tywyslyfrau a llyfrau cyffredinol.

Mae'r Ganolfan Groeso ar agor fel a ganlyn:

- Dydd Llun: 13.00 – 16.00
- Dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau: 09.30 – 16.00
- Dydd Gwener: 9.30 – 12.30

**Diwedd**

CIVIC OFFICES,
WELLINGTON COMMUNITY CENTRE,
WELLINGTON ROAD, RHYL, DENBIGHSHIRE,
LL18 1LE.

SWYDDFEYDD DINESIG,
CANOLFAN GYMUNED WELLINGTON,
FFORDD WELLINGTON, Y RHYL, SIR DDINBYCH,
LL18 1LE.

TEL / FFÔN: (01745) 331 114 / / 07743 969555
E-MAIL / E-BOST: rachael.wheatley@rhyltowncouncil.org.uk
WEBSITE / GWENFAN: www.rhyltowncouncil.org.uk

Correspondence is welcome in either Welsh or English
Mae croeso I chi gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg